# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 12 Gorffennaf 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o arian cyhoeddus sydd wedi ei roi i'r Eisteddfod Genedlaethol ar gyfer pob un o'r 15 blwyddyn ariannol diwethaf. (WAQ37145)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint o gyllid y mae Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru wedi ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. (WAQ37146)

**David Melding (Canol De Cymru);** Sut y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn ymdrin â'r cyflwr o fod yn fyddar yn ogystal ag yn ddall, yn enwedig y polisïau hynny sy'n ymdrin â:
a) Gofal Sylfaenol
b) Gofal Iechyd Meddwl
c) Gofal Eilaidd
d) Hybu iechyd ac atal damweiniau. (WAQ37147)

**David Melding (Canol De Cymru);** Faint o bobl yng Nghymru sydd wedi eu cofrestru yn fyddar yn ogystal ag yn ddall. (WAQ37148)

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa fesurau sydd wedi'u cyflwyno i hybu ymwybyddiaeth bod ffon goch a gwyn yn arwydd bod person yn fyddar yn ogystal ag yn ddall. (WAQ37149)

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cyflwr o fod yn fyddar yn ogystal ag yn ddall ymhlith y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. (WAQ37150)

**David Melding (Canol De Cymru);** Sawl contract y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cychwyn arnynt gyda'r sector preifat neu annibynnol i ddarparu triniaethau dewisol ar y GIG ers mis Mai 2003; a
a) Faint oedd cyfanswm gwerth ariannol y contractau hyn
b) Faint o'r contractau hyn oedd yn destun proses dendro gystadleuol
a) Beth oedd gwerth ariannol y contractau nad oedd wedi'u rhoi ar dendr. (WAQ37151)

**David Melding (Canol De Cymru);** A ydyw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried sefydlu Cadair Awtistiaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru fel rhan o'i Strategaeth Awtistiaeth Genedlaethol. (WAQ37152)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod targed cynllun yr ail gynnig o 12 mis yn cychwyn ar yr adeg y mae'r meddyg teulu yn cyfeirio'r achos. (WAQ37153)

**David Melding (Canol De Cymru);** A ydyw'r Gweinidog wedi asesu effaith canolfannau triniaeth yn Lloegr, ac a ydyw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu agor unedau tebyg yng Nghymru. (WAQ37154)

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa fesurau sydd yn eu lle i ddiogelu gallu'r GIG i ddarparu triniaethau dewisol. (WAQ37155)